



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff, CF10 3NQ

02 Mawrth 2022

Prif Swyddogion Cyllid,
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru

Annwyl Gyfaill,

FFURFLEN GOFYNION Y GYLLIDEB (BR2) AR GYFER PRAESEPT YR HEDDLU, 2022-23

Mae'r llythyr hwn yn cyfrif fel hysbysiad o dan adran 64(1) o [Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992](#) ("Deddf 1992").

Ar 1 Chwefror 2022 byddwn yn anfon e-bost at ein swyddog cyswllt yn eich sefydliad, yn cynnwys dolen at daenlen a chanllawiau ynghylch sut i lenwi'r ffurflen. Dylai'r swyddog cyswllt lenwi'r daenlen a'i hargraffu, yna dylai **gael ei hardystio gennych chi**.

Ar ôl ardystio dylech anfon y canlynol atom:

- Copi electronig o'r daenlen ar gyfer prosesu data.
- Copi wedi'i lofnodi o'r daenlen (yn ddelfrydol fel PDF) neu drwy'r post.

1. Gwybodaeth am ofynion y gyllideb

Dylech ddefnyddio'r daenlen i ddarparu'r wybodaeth ofynnol dan adran 64 o Ddeddf 1992, fel y'i diwygiwyd, sef gofynion y gyllideb ar gyfer 2022-23 (adran 64(1)).

Mae adran 64(3) yn ei gwneud yn ofynnol darparu'r wybodaeth hon **cyn pen saith diwrnod yn dechrau ar y diwrnod y cyfrifwyd gofynion y gyllideb**. Os byddwch wedi cyfrifo gofynion y gyllideb ar gyfer 2022-23 cyn derbyn y llythyr hwn, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd at Lywodraeth Cymru **ar unwaith**.

Y dyddiad hwyraf y gallwch gyfrifo gofynion y gyllideb ar gyfer 2022-23 yw **1 Mawrth 2022** (drwy rinwedd adran 40(5) Deddf 1992). Felly rhaid llenwi'r ffurflen BR2 a'i dychwelyd i Lywodraeth Cymru **heb fod yn hwyrach na 7 Mawrth 2022**.

2. Cyfrifo fersiwn newydd o ofynion y gyllideb

Os byddwch yn cyfrifo fersiwn newydd o ofynion y gyllideb, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn saith diwrnod (adran 64 (3)). Mewn sefyllfa o'r fath byddai'n rhaid llenwi, ardystio a dychwelyd ffurflen BR2 newydd i Lywodraeth Cymru o fewn y cyfnod hwnnw.

3. Cais am ragor o wybodaeth

Mae'r llythyr hwn hefyd yn cyfrif fel hysbysiad dan adrannau 64(4) a 68 o Ddeddf 1992 ac adran 230 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i ddarparu rhagor o wybodaeth i Lywodraeth Cymru. Yr wybodaeth bellach sy'n ofynnol yw'r eitemau sy'n cael eu disgrifio yn llinellau 2 i 18 o'r ffurflen BR2 ac, yn ddarostyngedig i'r hyn sy'n cael ei ddweud yn eitem 1, fe ddylid ei darparu ar yr un pryd â'r wybodaeth am ofynion y gyllideb neu'r fersiwn newydd o ofynion y gyllideb, yn ôl y digwydd.

4. Symiau'r dreth gyngor a gyfrifwyd dros saith diwrnod ar ôl cyfrifo gofynion y gyllideb

Os ydych yn bwriadu cyfrifo symiau'r dreth gyngor **dros saith diwrnod ar ôl** cyfrifo gofynion y gyllideb, bydd angen ichi wneud y canlynol:

- cwblhau llinell 1 o ffurflen BR2 a sicrhau fod Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffurflen a'r daenlen wedi'u hardystio **o fewn y cyfnod a nodwyd** yn adran 64(3) o Ddeddf 1992;
- cwblhau'r llinellau sydd ar ôl o ffurflen BR2 ar ôl cyfrifo symiau'r dreth gyngor a sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n derbyn y ffurflen a'r daenlen wedi'u hardystio **cyn gynted â phosib**.

5. Camgymeriadau a chywiriadau

Os byddwch yn gweld bod camgymeriad neu gamgymeriadau yn yr wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen BR2, dylech anfon ffurflen newydd wedi'i hardystio a thaenlen ddiwygiedig i Lywodraeth Cymru **cyn gynted â phosib**.

Os byddwch yn cyflwyno ffurflen newydd (boed yn sgil cyfrifiad gwahanol neu gywiro camgymeriadau), rhaid ichi ddweud yn glir ei fod yn disodli unrhyw ffurflen arall flaenorol.

6. Manylion Cyswllt

Anfonwch yr holl ohebiaeth, gan gynnwys hysbysiadau am fersiynau newydd o'r cyfrifon (gweler eitem 2) ac ymholiadau yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru

Ffôn: Bruce Anderson ar 030 0025 9169 neu Frank Kelly ar 03000 25 5673.

Post: Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd,
CF10 3NQ

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

Anthony Newby
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol / Finance and Corporate Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government